Canser Eilaidd / Metastatig (dwythellol) y Fron

Fe'i gelwir hefyd yn ganser metastatig neu ganser datblygedig y fron

Os ydych chi wedi cael canser cychwynnol y fron byddwch yn ymwybodol o'r **goleuadau COCH*** hyn sy'n arwyddion o ganser eilaidd y fron. Mae pum prif ardal lle y gall canser eilaidd y fron ymddangos.

YR YMENNYDD

Cur pen yn aml, chwydu (y peth cyntaf yn y bore), yn benysgafn, aflonyddwch gweledol, trawiad tebyg i ffit, nam ar allu deallusol, nam ar sgiliau echddygol, amrywiadau mewn hwyliau, cydbwysedd, blinder. Efallai y bydd aelodau o'r teulu a ffrindiau yn dweud nad ydych chi'n ymddangos yn chi'ch hun.

YR ESGYRN

Poen yn yr esgyrn – yn y cluniau, breichiau, asennau a'r cefn fel arfer. Gall fod yn boen sy'n boen mud neu'n boen pigog sydyn. Poen yn yr esgyrn heb unrhyw achos na thrawma amlwg. Rhowch wybod am unrhyw boen newydd, anarferol neu gynyddol.

YR YSGYFAINT

Poen sydyn yn ardal y frest a'r cefn wrth anadlu, peswch anghynhyrchiol, blinder a chlotiau gwaed sydd hefyd yn gallu achosi diffyg anadl.

Y NODAU LYMFF

Chwydd neu lympiau a phwysedd yn ardal y frest/cesail/gwddf, peswch sych.

YR IAU

Teimlo'n chwyddedig, archwaeth am fwyd wedi'i effeithio, colli pwysau, blinder, teimlo'n wan, poen ger yr asennau ar yr ochr dde.

CYWASGIAD LLINYN Y CEFN

Yn brin ond yn fwy cyffredin mewn canser y fron ac mae angen triniaeth BRYS

Poen neu dynerwch yng nghanol neu ar frig y cefn neu'r gwddf, poen difrifol yng ngwaelod y cefn sy'n gwaethygu neu nad yw'n diflannu, poen yn y cefn sy'n waeth wrth beswch, tisian neu straenio, poen cefn sy'n waeth yn y nos, diffyg teimlad, trymder, band o boen o amgylch y frest neu'r abdomen neu boen i lawr y fraich neu'r goes, teimlad gwahanol, er enghraifft pinnau bach neu deimlad fel sioc drydanol. **Cysylltwch â'ch tîm clinigol cyn gynted â phosibl os oes gennych y symptomau canlynol –** gwendid yn y breichiau neu'r coesau neu anhawster wrth eu defnyddio, diffyg teimlad yn yr ardal o amgylch twll y pen ôl (ardal y cyfrwy), methu gwagio'r coluddyn neu'r bledren, problemau rheoli'r coluddyn neu'r bledren.



Ewch i: abcdiagnosis.co.uk

Twitter: @abcdiagnosis

facebook: facebook.com/abcdiagnosis

***OS BYDD PROBLEM GOLAU COCH YN PARHAU YN HWY NA THAIR WYTHNOS CYSYLLTWCH Â'CH TÎM MEDDYGOL YN UNIONGYRCHOL**

After Breast Cancer Diagnosis

© 2020 Ar Ôl Diagnosis Canser y Fron. ABCDiagnosis SBS (Dwythellol) Ffeithlun Goleuadau Coch f9. Lluniwyd 24/02/2020. Ewch i'r wefan i ganfod y fersiwn ddiweddaraf – www.abcdiagnosis.co.uk/resources/infographics/